# Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod 2026-27

## RHYDDHAD ARDRETHI LLETYGARWCH BWYD A DIOD - PWRPAS Y RHYDDHAD

Mae Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod ar gael i fusnesau cymwys sy’n gweithredu yn y sector lletygarwch bwyd a diod. Bydd busnesau cymwys yn derbyn gostyngiad o 15% yn eu rhwymedigaeth net ar gyfer ardrethi annomestig yn 2026–27. Ni ddylai uchafswm gwerth ariannol o’r rhyddhad ardrethi a ganiateir, ar draws pob eiddo yng Nghymru a feddiannir gan yr un busnes, fod yn fwy na £110,000.

Mae canllawiau llawn y cynllun a'r meini prawf cymhwysedd ar gael ar wefan Busnes Cymru: [Ardrethi Annomestig – Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod 2026-27 | Busnes Cymru]

Darperir y rhyddhad fel cymhorthdal ar ffurf Cymorth Ariannol Lleiaf. Ni chaiff yr un busnes hawlio mwy na £315,000 o Gymorth Ariannol Lleiaf i gyd ar draws y DU dros gyfnod o dair blynedd (gan gynnwys 2026–27). Felly, ni ddylai gwerth gros y rhyddhad a hawlir gan yr un busnes fod yn fwy na £110,000 yng Nghymru ar gyfer 2026–27 (er mwyn cydymffurfio â thelerau’r cynllun hwn), nac yn fwy na £315,000 i gyd ar draws y tair blynedd ariannol 2024–25 i 2026–27, yn unol â gofynion rheoli cymorthdaliadau’r DU. Rhaid i fusnesau sy'n hawlio'r rhyddhad ddatgan nad yw'r swm sy'n cael ei hawlio yn fwy na'r terfynau hynny, cyn y gellir dyfarnu'r rhyddhad.

Mae'n ofynnol i fusnesau ddatgan eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru a nodi pa eiddo y maent yn ceisio hawlio’r rhyddhad ar eu cyfer. Lle bo 15% o’r rhwymedigaeth ar draws eiddo busnes yn fwy na £110,000 neu'r terfyn Cymorth Ariannol Lleiaf, rhaid i fusnesau bennu pa eiddo y maent yn dymuno i’r rhyddhad fod yn berthnasol iddynt. Gall busnesau ddewis pa eiddo y maent yn ceisio’r rhyddhad ar eu cyfer. Lle bo cyfanswm y rhyddhad a ganiateir ar gyfer eiddo eraill yn agos at yr uchafswm o £110,000 neu derfyn y Cymorth Ariannol Lleiaf, gellir caniatáu swm o ryddhad sy’n llai na 15% ar gyfer eiddo pellach sy’n gymwys.

Rhaid cyflwyno ffurflen gais i bob awdurdod lleol y mae busnes yn ceisio hawlio rhyddhad ganddo ar gyfer eiddo yn ardal yr awdurdod hwnnw. Rhaid i bob ffurflen gynnwys manylion yr holl eiddo y ceisir hawlio rhyddhad ar eu cyfer ledled Cymru. Os na chyflwynir cais, ni ellir dyfarnu’r rhyddhad.
Bydd unrhyw ymgais gan fusnes i hawlio dros £110,000 o ryddhad yn fwriadol yn peri risg o dynnu'r rhyddhad a roddwyd i'r busnes hwnnw gan unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru yn ôl. Bydd gwybodaeth am ryddhad a hawlir yn cael ei rhannu ag awdurdodau lleol eraill a Llywodraeth Cymru, gan alluogi i unrhyw hawliadau cyfanredol dros £110,000 gael eu nodi ac os oes angen, cymryd camau priodol.

Ni fydd Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion yn goddef unrhyw fusnes yn ffugio eu cofnodion nac yn darparu tystiolaeth ffug er mwyn ennill y gostyngiad hwn, gan gynnwys hawlio cymorth sy’n fwy na’r cap o £110,000 neu’r trothwy eithrio perthnasol. Gall busnes sy’n gwneud cais ffug am unrhyw ryddhad, neu sy’n darparu

gwybodaeth ffug neu’n ymhonni'n anwir er mwyn cael rhyddhad, fod yn euog o dwyll o dan Ddeddf Twyll 2006 ac yn ddarostyngedig i gamau cyfreithiol. Yn ogystal, bydd pob Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod yn cael ei dynnu’n ôl o holl eiddo’r busnes hwnnw ar gyfer 2026–27.

At ddibenion y cynllun hwn, bydd Cyngor Sir Ceredigion, fel Rheolwyr Data, yn rhannu’r wybodaeth a gesglir â Llywodraeth Cymru ac, os oes angen, ag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru. Gellir cael mynediad at ein Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan Cyngor Sir Ceredigion: https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/diogelwch-data-a-rhyddid-gwybodaeth/diogelwch-data/hysbysiad-preifatrwydd/

**Bydd angen i bob ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth ganlynol:**

**A ydych yn gwneud cais am Ryddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol?**

**Os ydych chi, cwblhewch Rannau 1 a 2**

**Os nad ydych chi, cwblhewch Ran 1 yn unig**

**Rhan 1: Yn berthnasol i bob ymgeisydd mewn perthynas â’r eiddo y ceisir Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod ar eu cyfer gan Gyngor Sir Ceredigion.**

Enw a chyfeiriad y busnes: ...…………………………………………….

Rhif cofrestru'r cwmni (os yw'n berthnasol):………………………………

Sut y caiff yr eiddo ei ddefnyddio, e.e. tafarn, caffi ac ati:……………………………….

Enw'r ymgeisydd: ………………………………………………………………..

Rôl yr ymgeisydd yn y busnes (e.e. perchennog / cyfarwyddwr / ysgrifennydd cwmni / cyfrifydd): …………………………………………………

Cyfeiriad e-bost yr ymgeisydd:
……………………………………………………………………………………

Rhif ffôn yr ymgeisydd: ……………………………………………..

**Os ydych yn gwneud cais am ryddhad mewn perthynas â mwy nag un safle busnes, rhestrwch hwy yn nhrefn blaenoriaeth o ran pa eiddo y dylai’r rhyddhad fod yn berthnasol iddynt, gan nodi mai uchafswm y rhyddhad y gellir ei ganiatáu i fusnes yng Nghymru ar gyfer 2026–27 yw £110,000. Bydd y rhyddhad yn cael ei ddyfarnu yn unol â’r drefn y rhestrir y safleoedd.**

Mae'r manylion gofynnol i'w gweld ar y bil ardrethi annomestig a roddwyd i chi mewn perthynas â phob eiddo yr hoffech hawlio rhyddhad ar ei gyfer.

| Cyfeiriad yr eiddo | Rhif Cyfrif Ardrethi9 Annomestig (Ardrethi Busnes) | Gwerth Ardrethol* |
|---|---|---|
| | | £ |
| | | |
| | | |
| | | |

| **Cyfanswm y Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod a geisir gan Gyngor Sir Ceredigion (heb fod yn fwy na £110,000 ledled Cymru)**<br><br>Gallwch adael y maes hwn yn wag os nad yw Rhan 2 o'r cais hwn yn berthnasol i'ch busnes, neu os bydd hawl uchafswm y rhyddhad ar gyfer eich busnes ar draws Cymru yn llai na £110,000. Os yw'n ofynnol i chi hawlio swm penodol o ryddhad gan Gyngor Sir Ceredigion, er mwyn osgoi bod eich busnes yn mynd heibio'r cap o £110,000 ar gyfer 2026-27 ledled Cymru, rhaid i chi ei nodi yma. | **£** |
|---|---|

*I gael gwybod beth yw eich gwerth ardrethol, gallwch nodi'r manylion ar wiriwr ar-lein Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

**Rhan 2: Yn berthnasol i fusnesau sy'n gwneud cais am ryddhad gan fwy nag un awdurdod lleol yng Nghymru yn unig. Mewn achosion o'r fath, dylid cyflwyno cais ar wahân i bob awdurdod lleol.**

Eiddo mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, y mae Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod yn cael ei hawlio ar eu cyfer ar gyfer y busnes hwn.

| Cyfeiriad | Awdurdod lleol |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

**Datganiad:**

Rwy'n deall na all cyfanswm gwerth y Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod a hawlir gan…………………………………………………………………………
**[RHOWCH ENW'R BUSNES]** ar draws Cymru gyfan fod yn fwy na £110,000 yn ystod y flwyddyn ariannol 2026–27, a bod unrhyw ymgais fwriadol i hawlio rhyddhad

sy'n fwy na £110,000 yn peri risg o dynnu'r holl ryddhad a ddyfarnwyd o dan y cynllun yn ôl. Rwy'n derbyn cyfrifoldeb am hysbysu fy awdurdod lleol o unrhyw newid mewn amgylchiadau, yn dilyn fy nghais am ryddhad, a allai olygu bod y rhyddhad a ddyfarnwyd i'm busnes yn anghywir neu'n fwy na £110,000 ar draws Cymru (er enghraifft, newid i'r gwerth ardrethol).

Rwy'n deall, os caiff rhyddhad sy'n fwy na £110,000 ei ddyfarnu yn ystod y flwyddyn ariannol 2026–27 am unrhyw reswm, y bydd cyfran ohono'n cael ei hadennill, mewn perthynas ag un eiddo neu fwy, er mwyn lleihau gwerth y rhyddhad a ddyfarnwyd i £110,000 neu lai, fel sy'n briodol. Rwy'n deall hefyd, os caiff rhyddhad sy'n fwy na £110,000 ei ddyfarnu o ganlyniad i ymgais fwriadol i hawlio mwy na'r uchafswm a ganiateir, y gellir tynnu'r holl Ryddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod a ganiateir ar gyfer……………………………… **[RHOWCH ENW'R BUSNES]** ar draws Cymru yn ôl, a bydd cyfanswm y rhwymedigaeth ardrethi ar gyfer 2026–27 yn daladwy.

Rwy'n deall y bydd y rhyddhad yn cael ei ddarparu fel cymhorthdal ar ffurf Cymorth Ariannol Lleiaf, yn unol â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022. Rwy'n cadarnhau, wrth hawlio'r rhyddhad hwn, na fyddaf yn derbyn mwy na £315,000 o Gymorth Ariannol Lleiaf i gyd ar draws y DU dros gyfnod o dair blynedd (yn cynnwys blynyddoedd ariannol 2024–25 i 2026–27).

Rwy'n cydnabod y bydd fy awdurdod lleol, unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru a/neu Lywodraeth Cymru yn cynnal unrhyw wiriadau priodol y bernir eu bod yn angenrheidiol er mwyn asesu'r cais hwn am ryddhad ardrethi, gan gynnwys croeswirio unrhyw wybodaeth sydd eisoes gan yr awdurdod, gan unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru neu gan Lywodraeth Cymru. Rwy'n deall y bydd y data yr wyf wedi ei ddarparu yn cael ei rannu â Llywodraeth Cymru ac, os oes angen, ag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru, at y diben hwn ac er mwyn atal twyll a gwallau.

Rwy'n datgan bod y wybodaeth a ddarparwyd yn y cais hwn yn wir ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth, fy nealltwriaeth a'm cred, ac rwy'n deall y gallai rhoi ymateb ffug i unrhyw un o'r cwestiynau yn y cais hwn fod yn weithred o dwyll.

Llofnodwyd ………………………………………………….

Enw ……………………………………………………

Dyddiad ………………………………………………………

**Dychwelwch y ffurflen wedi'i chwblhau naill ai drwy e-bost at revenues@ceredigion.gov.uk neu drwy ei hanfon i'r cyfeiriad post:**

Neuadd Cyngor Ceredigion Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA